

Cyflyrau Niwrolegol: Datganiad Blynyddol o Gynnydd

Mawrth 2018

Trosolwg

Gall cyflyrau niwrolegol gael effaith ddifrifol iawn a pharhaus ar fywydau unigolion a'u teuluoedd. O'r bobl hynny y mae cyflwr niwrolegol yn effeithio arnynt, bydd gan oddeutu 100,000 gyflwr hirdymor. Mae cyflwr niwrolegol hirdymor yn digwydd oherwydd afiechyd, anaf neu ddifrod i system nerfol y corff, fel yr ymennydd, yr asgwrn cefn a/neu'r cysylltiadau nerfol perifferol, gan effeithio ar yr unigolyn a'i deulu mewn rhyw ffordd am weddill eu hoes. Mae'n bosibl y bydd gan bobl â chyflyrau niwrolegol anghenion cymhleth a fydd yn effeithio ar eu gallu i weithredu, nid dim ond anghenion corfforol, ond hefyd anghenion seicolegol a chymdeithasol am gefnogaeth, i helpu'r unigolyn i gael y canlyniad gorau posibl.

Mae rhai cyflyrau niwrolegol yn para gydol oes a gallant ddechrau ar unrhyw adeg. Mae eraill, megis parlys yr ymennydd, yn bresennol pan gaiff yr unigolyn ei eni. Mae rhai cyflyrau, fel nychdod cyhyrol, yn aml yn ymddangos yn ystod plentyndod cynnar; mae eraill, megis clefyd Parkinson yn effeithio ar bobl hŷn. Mae rhai cyflyrau niwro-ddirymol, megis sglerosis ymledol, clefyd niwronau motor a chlefyd Huntington, yn effeithio ar bobl pan maent yn oedolion yn bennaf a byddant yn achosi dirywiad dros amser, gan effeithio ar ansawdd bywyd unigolyn a'i allu i fyw'n annibynnol.

Ceir dros 250 o gyflyrau niwrolegol cydnabyddedig. Mae rhai yn fwy cyffredin nag eraill. Ar y cyfan, ychydig mae'r cyhoedd yn gyffredinol yn ei ddeall amdanynt. Isel yw'r lefelau ymwybyddiaeth, hyd yn oed o gyflyrau cymharol gyffredin, megis epilepsi.

Yn ystod 2016-17, gwnaed cynnydd parhaus i wella gwasanaethau ar gyfer pobl sydd â chyflwr niwrolegol. Ceir enghreifftiau rhagorol o wasanaethau'n gwella ledled Cymru wrth iddynt ddelio, ar yr un pryd, â galw cynyddol a mwy cymhleth am y gwasanaethau.

Yr her

Mae nifer gynyddol o gyflyrau niwrolegol i'w gweld ymhlith pobl hŷn gan fod rhai cyflyrau'n effeithio'n arbennig ar bobl hŷn ac mae eraill yn gyflyrau gydol oes. Bydd niferoedd y bobl sydd â chyflyrau niwrolegol yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddau ddegawd nesaf oherwydd cyfraddau goroesi gwell, gwell gofal iechyd cyffredinol a rheolaeth heintiau, oherwydd bod pobl yn byw'n hŷn a thechnegau diagnostig gwell.

Gall pobl sydd â chyflyrau niwrolegol gael anawsterau sy'n amrywio o fyw gyda chyflwr a allai eu gwanhau neu eu hanalluogi am gyfnodau i fod angen help ar gyfer y rhan fwyaf o dasgau bob dydd.

Amcangyfrifir bod cyfanswm o tua 100,000 o bobl yn byw gyda chyflwr niwrolegol hirdymor yng Nghymru¹. Yng Nghymru, bob blwyddyn mae tua 2,500 o bobl yn cael diagnosis o glefyd Parkinson, epilepsi, sglerosis ymledol neu glefyd niwronau motor. Dengys y data diweddaraf ar nifer achosion gan Iechyd Cyhoeddus Cymru² yr amcangyfrifir bod dros 41,000 o bobl, allan o'r 100,000 o bobl sy'n byw gyda chyflwr

¹ Cynghrair Niwrolegol Cymru

² 2014-15

niwrolegol yng Nghymru, yn dioddef o un o'r cyflyrau niwrolegol canlynol; clefyd parkinson, epilepsi, sglerosis ymledol, nychdod cyhyrol, clefyd niwronau motor a pharlys yr ymennydd. Hefyd, caiff 10,000 arall o bobl eu derbyn i'r ysbyty oherwydd anaf i'r ymennydd bob blwyddyn.

Yn ystod 2016-17 yng Nghymru:

- Cafodd dros 13,000 o bobl eu cyfeirio gan eu meddyg teulu am driniaeth oherwydd chyflwr niwrolegol; dyma oedd i gyfrif am 1.8% o'r holl atgyfeiriadau oddi wrth feddyg teulu.
- Cafodd 97% o gleifion niwroleg pediatrig eu trin o fewn yr amser targed.
- Yn ystod 2016-17, roedd bron 19,000 o dderbyniadau i'r ysbyty yn ymwneud â chyflyrau niwrolegol; hyd cyfartalog arhosiad yn yr ysbyty oedd 3.6 diwrnod.
- Mae cyfanswm nifer y dyddiau mewn gwely ar gyfer cleifion niwrolegol wedi syrthio 25% dros y pum mlynedd diwethaf. Yn dilyn derbyn dewisol mae'r ffigur hwn wedi syrthio 37%.
- Gwelwyd bod 24,376 o oedolion ar gofrestr epilepsi QOF meddygon teulu yng Nghymru. Mae nifer yr achosion wedi aros yn sefydlog yn 2015-16 a 2016-17 ar 0.8 y cant, yn unol â'r cyfraddau yn Lloegr.
- Cafodd 198 o gleifion newydd gyda chyflwr niwrolegol eu cyfeirio at dîm gofal lliniarol arbenigol yn 2016-17.
- Mae nifer y bobl sy'n marw o gyflwr niwrolegol³ wedi bod yn cynyddu; o 673 yn 2013 i 809 yn 2016. Digwyddodd 40% o'r marwolaethau hyn oherwydd clefyd Parkinson.
- Yn ystod 2016-17, bu farw 188 o bobl yn yr ysbyty oherwydd clefyd niwrolegol (oddeutu 23% o'r holl farwolaethau niwrolegol). Mae canran y bobl sy'n marw yn yr ysbyty yn dal i leihau, o 29% yn 2013-14 gan adlewyrchu ein dyhead i helpu pobl i farw gartref, os dymunant, lle bo hynny'n bosibl.

³ Heb gynnwys clefyd Alzheimer (G30)

Cyflawniadau pwysig

- ***Cynyddu gwariant y GIG ar gyflyrau niwrolegol***

Roedd gwariant y GIG ar gyflyrau'r system niwrolegol⁴ yn 2015-16 yn £314.4m, sy'n gynydd o £147m (87%) er 2011-12. O ran gwariant y pen o'r boblogaeth, mae hyn yn cyfateb i £101.46 y pen yn 2015-16. O'r ffigur hwn gwariwyd dros 21% (£67.2m) yn y sector gofal sylfaenol a'r gweddill (79% neu £247m) yn y sector gofal eilaidd. Dyma ddegfed maes gwariant mwyaf y GIG ac oddeutu 5% o'r holl gyllideb; mae hyn yn gynydd o 2% o gyfanswm gwariant y GIG er 2011-12.

- ***Gostyngiad yn yr amser cyfartalog a dreulir yn yr ysbyty***

Dylai gofal a thriniaeth effeithiol, dros amser, ostwng yr amser cyfartalog y mae unigolyn yn ei dreulio yn yr ysbyty. Dengys y wybodaeth ddiweddaraf fod faint o amser mae unigolyn yn ei dreulio yn yr ysbyty wedi gostwng yn raddol o 5.6 diwrnod yn 2011-12 i 3.6 diwrnod yn 2016-17. Mae cyfanswm y dyddiau y bu cleifion niwrolegol mewn gwely hefyd wedi syrthio 23,165 (25.5%) er 2011-12; o 90,943 i 67,778. Mae'r amser y mae cleifion niwrolegol yn ei dreulio yn yr ysbyty yn dilyn derbyniad dewisol wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf 37%; o 4.6 diwrnod yn 2011-12 i 1.7 diwrnod yn 2016-17. Dros yr un amser, gwelwyd gostyngiad bychan (3.5%) yn yr amser y mae cleifion sy'n achosion brys yn ei dreulio yn yr ysbyty; o 6.7 diwrnod i 6.5 diwrnod. Cleifion sydd â chlefyd Parkinson, o'r holl gyflyrau niwrolegol, sy'n treulio'r amser hiraf yn yr ysbyty. Serch hynny, dros y pum mlynedd diwethaf, mae hwn wedi syrthio 19% o 29 diwrnod i 23.4 diwrnod.

- ***Gostyngiad yn nifer y derbyniadau brys a chyfanswm y dyddiau a dreulia cleifion sy'n achosion brys mewn gwely***

Mae nifer y derbyniadau brys oherwydd cyflyrau niwrolegol wedi syrthio dros y pedair blynedd diwethaf a dyma sydd yn awr i gyfrif am 38% o'r holl dderbyniadau niwrolegol o'i gymharu â 42% bum mlynedd yn ôl. Mae'r gostyngiad hwn yn nifer y derbyniadau brys yn adlewyrchu'r ffaith bod cleifion a'r GIG bellach yn llawer gwell am reoli cyflyrau pobl. Bydd llawer o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu ar gyfer iechyd niwrolegol yn helpu i leihau niferoedd y derbyniadau brys.

- ***Mwy o ffocws ar fesurau canlyniadau drwy adroddiadau cleifion a mesurau profiadau drwy adroddiadau cleifion***

Drwy weithio gyda'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc, mae'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol wedi gwneud cynnydd da i ddatblygu a gweithredu mesurau profiadau drwy adroddiadau cleifion (PREMs) a mesurau canlyniadau drwy adroddiadau cleifion (PROMs) i werthuso a llywio gwelliannau a fydd yn gwella ansawdd gwasanaethau niwrolegol a strôc yng Nghymru dros amser. Hwn fydd y PROM cyntaf yn y DU i gael ei weithredu ar y cyd ar gyfer cyflyrau niwrolegol a strôc.

⁴ <http://gov.wales/docs/statistics/2017/170426-nhs-expenditure-programme-budgets-2015-16-en.pdf>

O fis Ebrill 2018, bydd gan Gymru PREM a PROM y gellir eu gweinyddu, eu casglu a'u cydgasglu ar lefel genedlaethol a fydd yn gallu canfod anghydraddoldebau yn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, helpu i werthuso datblygiad gwasanaethau a dangos newid dros amser.

- ***Cefnogi byrddau iechyd i ddatblygu gwasanaethau adsefydlu niwrolegol effeithiol***

Boed hynny yn y gymuned neu yn yr ysbyty, mae angen i bobl chwarae rhan ganolog yn eu gofal gyda'u hanghenion unigol yn cael eu nodi a'u bodloni, fel eu bod yn teimlo bod ganddynt ddigon o gefnogaeth a gwybodaeth i allu rheoli effeithiau eu cyflwr niwrolegol. Mae'n rhaid i'r GIG weithio gyda'r sector gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol i ddarparu cefnogaeth barhaus o ansawdd uchel i gleifion. Un o brif flaenoriaethau'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol yw sefydlu gwasanaeth niwro-adsefydlu ymatebol ac effeithlon sy'n cael ei ddarparu mor lleol â phosib a'i gynnig i bawb a fyddai'n elwa ohono. Mae byrddau iechyd yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r trydydd sector, gan eu cynnwys wrth gynllunio gwasanaethau, i ddarparu gwasanaeth gofal niwrowyddonol integredig. Er mwyn hwyluso a chefnogi mae'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol a'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc wedi buddsoddi £1.2m ar y cyd i ddatblygu gwasanaethau adsefydlu niwrolegol ar draws Cymru.

Yn ogystal, mae byrddau iechyd ledled Cymru wedi derbyn cyllid er mwyn i therapyddion hyfforddi yn y rhaglen Bridges, sy'n helpu cleifion i reoli eu cyflwr eu hunain. Mae'r rhaglen yn galluogi timau i gynorthwyo unigolion i deimlo'n hyderus i hunan-reoli, gan wneud eu gofal a'u hadsefydliad yn fwy effeithlon ac effeithiol.

- ***Helpu plant a phobl ifanc sydd â chyflwr niwrolegol***

Fel arfer mae plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â chyflyrau niwrolegol yn cael eu gweld o fewn y targedau y cytunwyd arnynt. Yn ystod 2016-17, fe wnaeth dros 97% o blant a phobl ifanc aros am eu triniaeth am lai na'r amser targed; roedd perfformiad y rhan fwyaf o'r misoedd dros 90%.

Meysydd y canolbwyntir arnynt

- ***Mynediad cyflym a hawdd i apwyntiad cleifion allanol cyntaf, pan fo'n briodol***

Bu twf aruthrol yn nifer y cleifion sy'n cael eu gweld yn yr adran cleifion allanol yn y pum mlynedd diwethaf. Yn 2016-17, ar draws Cymru cynhaliwyd 63,539 o apwyntiadau cleifion allanol o'i gymharu â 54,932 yn 2011-12, sy'n gynydd o 15.7%. Yn ystod yr amser hwnnw, cynyddodd apwyntiadau newydd o 20,818 i 23,713 (13.9%) a chynyddodd apwyntiadau dilynol o 34,114 i 39,826 (16.7%).

Yn ystod 2016-17, fe wnaeth 6,000 o gleifion aros mwy na 26 wythnos am apwyntiad claf allanol cyntaf ar gyfer eu cyflwr niwrolegol. Dros amser, bydd yr amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol cyntaf yn lleihau. Bydd hyn yn digwydd wrth i fyrddau iechyd wella gwasanaethau lleol a chefnogi unigolion i ddelio â'u cyflyrau. Gwneir hyn drwy ddatblygu clinigau nyrsys arbenigol a gwasanaethau sbastigedd dan arweiniad therapyddion. Bydd hyn yn lleihau'r galw am apwyntiadau dilynol gyda niwrolegydd ymgynghorol ac yn rhyddhau apwyntiadau i ganiatáu i bobl sy'n aros am ddiagnosis gael eu gweld yn amserol.

- ***Sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld a'u trin cyn pen 26 wythnos ar ôl cael eu cyfeirio***

Ar draws Cymru, cafodd 20,740 o gleifion eu trin am gyflyrau niwrolegol a niwrolawfeddygol. Yn ystod 2016-17, roedd ffigur cyfartalog o 86% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos bob mis o'r dyddiad y daeth y llythyr cyfeirio i law'r ysbyty i ddechrau'r driniaeth. Ar gyfartaledd roedd 98% o gleifion bob mis yn aros llai na 36 wythnos. Mae hyn yn welliant er 2015-16 pan roedd 85% o gleifion newydd ar gyfartaledd yn aros llai na 26 wythnos a 96% ar gyfartaledd bob mis yn aros llai na 36 wythnos. Byddem yn disgwyl y dylai o leiaf 95% o gleifion ddechrau eu triniaeth, os oes angen, cyn pen 26 wythnos o'r atgyfeiriad. Ni ddylai'r un claf aros mwy na 36 wythnos. Drwy'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella llwybrau gofal cleifion.

- ***Sicrhau atgyfeiriadau priodol***

Yn 2016-17, fe wnaeth meddygon teulu gyfeirio 13,122⁵ o gleifion oherwydd cyflyrau niwrolegol a niwrolawfeddygaeth. Mae hyn yn gynydd o 1,100 o gleifion er 2012-13 (9%). Mae GIG Cymru yn dechrau datblygu modelau gofal newydd a fydd yn arwain dros amser at fod llai o gleifion yn gorfod teithio i ysbyty am atgyfeiriad at ymgynghorydd a chaiff cleifion eu trin yn nes at adref mewn lleoliadau cymunedol.

⁵ Ni chaiff data Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr eu cynnwys yn ffigurau 2016-17 o fis Tachwedd 2016 ymlaen

- ***Cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn treialon clinigol***

Yn 2016-17, cafodd 309 o gleifion eu recriwtio i astudiaeth portffolio ymchwil glinigol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Roedd hyn yn ostyngiad o 52 o gleifion (14%) o'i gymharu â 2012-13.

- ***Cefnogaeth i gleifion sydd â thiwmor ar yr ymennydd***

Ar draws y DU, caiff bron 11,000 o bobl ddiagnosis o diwmor sylfaenol ar yr ymennydd a bob blwyddyn mae dros 5,000 yn marw o diwmor ar yr ymennydd⁶.

Yng Nghymru cafodd dros draean o bobl ddiagnosis o diwmor ar yr ymennydd drwy dderbyniad brys i'r ysbyty, ac mae'r ffigur hwn yn llawer uwch nac ar gyfer unrhyw fath arall o ganser; mae hyn yn amlygu pa mor bwysig yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r arwyddion a'r symptomau er mwyn cael diagnosis a thriniaeth gynharach. Fe wnaeth yr Arolwg diweddaraf o Brofiad Cleifion Canser yng Nghymru dynnu sylw at y ffaith mai 56% o bobl yn unig sydd â thiwmor ar yr ymennydd / y system nerfol ganolog a deimlai y gallent gysylltu'n hawdd â'u gweithiwr allweddol ac roedd llai na'u hanner wedi cael gwybodaeth gan staff ynglŷn â chymorth ariannol.

- ***Mynediad i ofal lliniarol arbenigol***

Pan gaiff unigolyn ei gyfeirio at ofal lliniarol arbenigol, mae'n bwysig gweithredu ar yr atgyfeiriad yn ddi-oed. Yn 2016-17, gwnaed 16,538 o gyfeiriadau i ofal lliniarol arbenigol. O'r rhain, roedd 198 (1.2%) yn atgyfeiriadau ar gyfer cleifion a oedd â chyflwr niwrolegol.

⁶ Elusen Tiwmor ar yr Ymennydd

Gofal niwrolegol yng Nghymru: Mawrth 2018

Ystadegau diweddaraf ar gyfer 2016–17

Ceir dros

250

o gyflyrau niwrolegol cydnabyddedig



Mae oddeutu **100,000**

o bobl yn byw gyda chyflwr niwrolegol hirdymor yng Nghymru



Mae gan oddeutu **41%**

glefyd parkinson, epilepsi, sglerosis ymledol, nychdod cyhyrol, clefyd niwronau motor neu barlys yr ymennydd

Cafodd **20,000**

eu cyfeirio i'r ysbyty am driniaeth ar gyfer cyflwr niwrolegol

Daeth **65%** o'r atgyfeiriadau oddi wrth feddygon teulu



Roedd **19,000**

o dderbyniadau i'r ysbyty yn ymwneud â chyflwr niwrolegol

Roedd **38%**

yn dderbyniadau brys, sef gostyngiad o


4%

er
2011–12



Hyd cyfartalog arhosiad yn yr ysbyty oedd

3.6 diwrnod



Hyd cyfartalog arhosiad yn yr ysbyty yn dilyn derbyniad brys oedd

6.5 diwrnod


Ar gyfartaledd arhosodd

89%

o gleifion lai na 26 wythnos bob mis ac ar gyfartaledd arhosodd

99.5%

bob mis lai na 36 wythnos



64,000

o gleifion allanol sy'n gynydd o

15.7%

er 2011–12



Arhosodd **6,000**

o gleifion am fwy na

26 wythnos

am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf



Cafodd **198**

o bobl â chyflwr niwrolegol eu cyfeirio at dîm gofal lliniarol arbenigol



Bufarw **809**

o bobl o gyflwr niwrolegol, heb gynnwys Clefyd Alzheimer

Roedd

40%

o'r rhain o Glefyd Parkinson



Bufarw **23%**

o bobl a oedd â chyflwr niwrolegol yn yr ysbyty, sef gostyngiad o

29% er 2013

